

Grŵp Cyswllt Prosiect (GCP) Adeiladu Wylfa Newydd COFNODION

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Mercher 17^{eg} Ebrill 2013 am 5:30pm yn Swyddfa Wylfa Horizon.

Yn bresennol (yn nhrefn yr wyddor yn ôl sefydliad):

Sefydliad	Enw	Cyfenw
Clough & Co	Gwilym	Williams
Coleg Menai (Cyfarwyddwr Adnoddau a Datblygu)	Wyn	Thomas
Cyngor Sir Conwy	Stuart	Anderson
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Jenny	Pritchard-Jones
Cyngor Tref Caergybi	Clifford	Everett
Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor Sir Ynys Môn	Tony	Jones
Cyngor Sir Ynys Môn	John V	Owen
Cyngor Sir Ynys Môn	Dylan	Williams
Llanbadrig	William	Thomas Hughes
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Elfed	Hughes
Llaneilian	Aled Morris	Jones
Cyngor Cymuned Llaneilian	Helen	Woodcock
Llanerch y Medd	Elwyn	Schofield
Llanfaethlu	Kenneth P	Hughes
Magnox	Iorwerth	Gray-Parry
Mechell	Thomas H	Jones
Menter Mechell / Carrog Renewables / Is-gadeirydd GCP	Jac	Jones
NFU	Will	Edwards
Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru	Keith	Williams
Cyngor Cymuned Tref Alaw	Trevor	Jones
Dŵr Cymru	Karen	Morris
Cymdeithas Gweithwyr Wedi Ymddeol Wylfa a Chlwb Pêl-droed Bae Cemaes	Tom	Conway
Ysgol Cemaes, Cadeirydd y Llywodraethwyr	Isla	Halil
Ysgol Syr Thomas Jones	Jean	Jones
Ysgol Syr Thomas Jones	Callum	Davies
Ysgol Syr Thomas Jones, Pennaeth	Aaron	Bayley
Ysgol Uwchradd Bodedern	Irfon	Morris

Aelodau o'r cyhoedd		
	John Cadwaladr	Jones
	Mel	O'Hara
	Michael	Dodds
	Steve	Roberts
Ymddiheuriadau		
Amlwch Wledig	Gareth Winston	Roberts
Cyngor Tref Amlwch	Val	Roberts
Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn	John Idris	Jones
Ymddiriedolaeth Bodorgan	Melanie	Wymer
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Gwynne	Morris Jones
Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn	Richard Parry	Jones
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad	Stephen	Lindoe
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Damian	Hamilton
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Anthony	Hughes
Cyngor Cymuned Llanfachraeth	Bleddyn	Rowlands
Cyngor Cymuned Llannerch y Medd	John	Jukes
Aelod Lleol y Cynulliad Cenedlaethol	Ieuan Wyn	Jones
Menter Môn	Gerallt	Jones
AS Dwyfor Meirionnydd	Elfyn	Llwyd
Yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol	Alli	Hunt
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Sarah	Andrews
Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd (Cadeirydd)	Selwyn	Griffiths
Anabledd Taran	Aled	Robert
Cymdeithas Amaethyddol Môn / Clwb Rotari Caergybi	John	Chamberlain
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru	Andrew	Forfar
Cyngor Cymuned Tref Alaw	Anna M	Jones
Dŵr Cymru	Angela	Meadows
Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn	Karen	Garrod
Ysgol David Hughes	Brice	Jones

Os nad yw'ch enw ar y rhestr oherwydd camgymeriad neu os yw wedi ei nodi'n anghywir, cysylltwch â ni ar 0800 954 9516 neu wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com.

1 Gair o Groeso gan y Cadeirydd

Estynnodd y Cadeirydd, Dennis Evans (DE) groeso i bawb i'r cyfarfod. Yr oedd pum mis wedi mynd heibio ers y cyfarfod diwethaf ac yr oedd llawer wedi digwydd ers y cyfnod hwnnw. Hefyd dymunodd lwc dda i ymgeiswyr y cyngor sir yn etholiadau mis Mai.

2 Ymddiheuriadau a Chofnodion

Derbyniwyd ymddiheuriadau. Nododd DE fod pwynt ychwanegol wedi ei ychwanegu at y cofnodion:

Estynnodd Damian Hamilton o'r Adran Gwaith a Phensiynau ei longyfarchiadau i Horizon. Nododd nad oedd pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) bob amser yn boblogaidd a bod angen eu gwneud yn fwy atyniadol i blant. Dywedodd fod hyn yn dechrau newid ond fod llawer iawn mwy i'w wneud. Roedd hwn yn gyfle cyffrous i bobl Môn meddai – yn enwedig y bobl ifanc.

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y GCP (15^{fed} Tachwedd 2012) yn gofnod gwir a chywir o'r digwyddiadau a chawsant eu cymeradwyo gan yr aelodau.

O ran materion yn codi o'r cofnodion blaenorol, holodd Thomas Conway (TC) ynghylch y gwaith dymchwel a nodwyd ar dudalen pump. Gofynnodd a fyddai'n bosibl cadarnhau faint a oedd yn cael ei ailgylchu. Nodwyd y byddid yn ymdrin â'r mater hwn yn nes ymlaen.

3 Proses enwebu ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Yn dilyn ethol Dennis Evans a Jac Jones ddwy flynedd yn ôl, yr oedd bellach yn amser enwebu Cadeirydd ac Is-gadeirydd am y cyfnod nesaf. Yn dilyn y broses enwebu, nododd Alan Smith (AS) nad oedd unrhyw enwau eraill wedi'u cyflwyno, ac felly diolchodd i'r ddau unigolyn yn bersonol am eu gwaith ac estynnodd wahoddiad i DE fwrw ymlaen â'r cyfarfod fel Cadeirydd. Hefyd, diolchodd DE i bawb am eu cefnogaeth.

4 Diweddariad ar y prosiect a datblygiad y safle

Dangoswyd DVD i egluro gwaith Hitachi a nodweddion technoleg Adweithyddion Dŵr Berw Uwch (ABWR). Yr oedd yn dangos sut yr adeiladwyd gorsafoedd pŵer ABWR eraill, sut yr oedd y systemau'n gweithio a sut yr adeiledir gorsafoedd, gan bwysleisio profiad Hitachi o ran y dechnoleg ddiweddaraf.

Yn dilyn y DVD rhoddodd AS gyflwyniad yn amlinellu'r gwaith a oedd yn digwydd ar hyn o bryd ar y safle ac o'i amgylch. Yr oedd ei gyflwyniad yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:

- Gwaith wedi parhau i roi ffurf derfynol ar y strategaeth / rhaglen fanwl
- Hitachi yn symud ymlaen â'r Aseiad Dyluniad Generig ar gyfer yr adweithydd ABWR
- Peirianeg a Dylunio Pen Blaen (FEED) i fod i ddechrau yn Ebrill 2013

- Byddai Horizon yn parhau â'i raglen i ddatblygu'r safle ac ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Byddai dau ddigwyddiad i gyflenwyr yn cael eu cynnal ym mis Mai i rannu cynlluniau a chyfleoedd ar gyfer busnesau
- Eleni, byddai Horizon yn ail-ddechrau recriwtio

Holi ac Ateb

- Gofynnodd DE a oedd angen cwblhau'r Peirianeg Pen Blaen cyn dechrau cam cyntaf yr Ymgynghori Cyn Ymgeisio (PAC1)?
 - Dywedodd AS nad oedd angen hynny ac y gallai PAC1 fynd rhagddo tra yr oedd yn broses GDA yn parhau
- Gofynnodd TC a oedd unrhyw un o Hitachi yn bresennol yn y cyfarfod?
 - Atebodd AS nad oedd, ond y byddent yn asesu'r angen i gynrychiolydd o Hitachi fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r GCP yn y dyfodol
- Gofynnodd TC pam nad oedd adroddiadau yn y wasg yn ymwneud â thrafodaethau parhaus EDF gyda'r Llywodraeth i gytuno ar 'contract gwahaniaeth' neu 'bris taro' yn crybwyll Hitachi?
 - Eglurodd AS nad oedd angen i TC bryderu'n ormodol gan fod EDF a Hitachi yn gwmnïau ar wahân gyda strategaethau gwahanol. Yr oedd y ddau fusnes hefyd yn gweithredu prosiectau gwahanol oedd ar gamau sylweddol wahanol i'w gilydd.
 - Awgrymodd Richard Foxhall (RF) y gallai brys EDF i gwblhau trafodaethau fod yn gysylltiedig â'u dymuniad i ddechrau adeiladu yn Hinkley, gan ei bod yn ymddangos fod popeth yn ei le ac eithrio cytundeb ar y Contract Gwahaniaeth. Nododd hefyd bod disgwyl y byddai'r Bil Ynni yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin yn ystod mis Mehefin.

Eglurodd AS fod Horizon yn parhau i gynnal Cymorthfeydd Agored misol lle y gallai pobl leol gwrdd â'r tîm a gofyn cwestiynau am waith Horizon. Byddai'r dair cymhorthfa nesaf yn cael eu cynnal yn ystod mis Mai, Mehefin a Gorffennaf ac yr oedd gwybodaeth am y dyddiadau a'r lleoliadau ar gael ar wefan Horizon.

Rhoddodd AS ddiweddariad i'r aelodau ar gael gwared â 14 eiddo ar y safle, a oedd wedi mynd i gyflwr gwael. Cadarnhaodd fod gwaith wedi ei gynllunio i dynnu'r toeau oddi ar yr adeiladau oedd i'w dymchwel, a fyddai'n digwydd hyd at ddiwedd Ebrill. Rhoddodd ddiweddariad i'r aelodau hefyd ar adeiladu'r ysguboriau ystlumod a thŵr y dylluan wen. Yr oedd ysguboriau'r ystlumod wedi'u hadeiladu i raddau helaeth o ddeunydd a ailgylchwyd, ac roedd adeilad presennol wedi ei addasu i greu tŵr clwydo i'r dylluan wen.

Dangosodd AS fap a oedd yn nodi syniadau cynnar Horizon o ran cynllun safle generig, ac ail fap yn dangos lleoliad gwahanol ardaloedd a oedd yn cael eu hasesu fel lleoliadau addas ar gyfer datblygiadau cysylltiedig megis safleoedd Parcio a Theithio a llety i weithwyr.

Eglurodd AS fod adeiladau gweithredol ar y safle a oedd yn eiddo i Magnox, y byddai angen eu symud oddi yno maes o law i helpu i baratoi'r safle ar gyfer adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd. Byddai mwy o wybodaeth am hyn yn dilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Rhoddodd AS olwg gyffredinol ar y gwaith a oedd yn mynd rhagddo i gynnal arolwg o'r ffyrdd o gwmpas y safle – gan gynnwys yr A5025 a Phen yr Orsedd. Lluniwyd y gwaith hwn er mwyn galluogi Horizon i adnabod ymhle yr oedd y 'mannau cyfyng' a goleuo'r awgrymiadau o ran gwelliannau i ffyrdd a allai fod yn angenrheidiol. Cadarnhaodd AS y byddai Horizon yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Môn ar y mater hwn.

Holi ac Ateb

- Gofynnodd Tony Jones am leoliad yr adweithydd a pha mor bell y byddai oddi wrth y ffordd.
 - Dywedodd AS nad oedd y pellter o'r ffordd yn hysbys ond amcangyfrifodd y byddai oddeutu 450 metr yn seiliedig ar y map a oedd yn cael ei ddangos. Byddai'r ffigur cywir yn hysbys erbyn PAC1
 - Eglurodd RF nad oedd yn wybyddus eto a fyddai 2 ynteu 3 uned.
- Gofynnodd TC pa effeithiau y gallai adeiladu yn y dyfodol eu cael ar Ardd Cestyll a'r afon?
 - Cadarnhaodd AS y byddid yn ymdrin yn fwy manwl â'r ddau fater fel rhan o PAC1 (ymgynghoriad cyn-ymgeisio ffurfiol).
- Gofynnodd DE a fyddai angen datgan sawl uned fyddai yno – dau neu dri – cyn mynd i PAC 1?
 - Nododd AS bod y map yr oedd yn ei ddangos yn nodi tair uned ond nad oedd penderfyniad wedi'i wneud eto, ac y byddai'n cael ei wneud cyn PAC 1
 - Eglurodd TC y byddai gan bob uned gapasiti cynhyrchu o oddeutu 1300 MW.

Holi ac Ateb

- Dywedodd y Cyng. Will Hughes (WH) y gallai weld rhesymeg mewn asesu'r A5025 rhwng Y Fali a Wylfa ond gofynnodd a fyddai lleoliadau eraill hefyd yn cael eu harchwilio?
 - Dywedodd AS fod y gwaith yn ei gamau cynnar ac nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto. Roedd llawer mwy o waith i'w wneud cyn y gellid gwneud argymhellion terfynol.
- Gofynnodd aelod o'r GCP (NA ALLAI'R COFNODWR GANFOD PWY YDOEDD) a ellid lleoli Parcio a Theithio / Parc Loriau ar 'ochr arall' y bont ac

a ellid defnyddio Rhosgoch fel safle storio a pharatoi ar gyfer deunyddiau adeiladu?

- Nododd AS mai'r nod oedd rheoli tagfeydd ac amseru drwy alluogi loriau i ddefnyddio'r parc loriau fel man aros hyd nes y byddai eu hangen ar y safle. Byddai angen cynnal ymchwiliadau pellach.
- Dywedodd y Cyng. J V Owen fod Caergybi'n profi problemau oherwydd diffyg cyfleusterau parcio loriau felly yr oedd hwn yn faes a haeddai ystyriaeth gynnar. Byddai'n dda pe gellid adeiladu canolfan a fyddai o fudd i Gaergybi yn y dyfodol.
 - Nododd AS eu bod yn edrych ar ystod eang o fannau. Yr oedd angen i Horizon asesu llawer o ardaloedd a byddai'n edrych ar bob opsiwn cyn cyflwyno cynigion am ystyriaeth yn ystod PAC1.
 - Dywedodd AS ei bod hefyd yn bosibl y gallai rhai agweddau penodol ar ddatblygiadau cysylltiedig fod yn destun 'ymgyngoriadau cyhoeddus bychain' a allai gael eu cynnal cyn PAC1
- Gofynnodd DE a oedd PPA (Cytundeb Perfformiad Cynllunio) wedi ei arwyddo gyda Chyngor Sir Ynys Môn?
 - Cadarnhaodd AS fod Cytundeb Perfformiad Cynllunio eisoes yn ei le
 - Cadarnhaodd Dylan Williams (DW) fod strwythur yn ei le i sicrhau y gallai'r gwaith angenrheidiol fynd rhagddo ar brosiect Wylfa heb effeithio ar waith y Cyngor o ddydd i ddydd.
- Gwnaeth Jac Jones (JJ) sylw fod y cyfarfod wedi canolbwyntio ar effeithiau cadarnhaol adeiladu gorsaf niwclear newydd ar Ynys Môn, ond beth am yr agweddau negyddol? Sut fyddai Horizon yn sicrhau y diogelir lles pobl?
 - Mynegodd DE ei farn y bydd yr wybodaeth a rennir yn ystod PAC1 yn tynnu sylw at y materion ac yn cynnig mesurau lliniaru priodol
 - Atebodd DW ar ran Cyngor Sir Ynys Môn, gan ddweud y byddai'r cyngor yn edrych ar effeithiau'r prosiect mewn ystod o feysydd yn cynnwys iaith, twristiaeth a chymunedau. Byddent wedyn yn edrych ar ystod o opsiynau (megis cytundebau Adran 106) i sicrhau y caiff y meysydd pwysig hyn eu diogelu
- Gofynnodd y Cyng. Elwyn Schofield (ES) a ellid gweld gwybodaeth am effeithiau'r safle presennol drwy Bwyllgor Craffu Cyngor Sir Ynys Môn?
 - Atebodd AS y byddai hyn yn digwydd ac eglurodd mai ei fwriad heddiw oedd amlinellu'r cynlluniau cynnar. Yr her oedd bod Magnox yn parhau i fod yn safle cynhyrchu pŵer gweithredol.
- Gofynnodd y Cyng. Aled Morris Jones (AMJ) sut yr oedd y Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil yn ymwneud â'r broses gynllunio bresennol.

- Cadarnhaodd AS fod y Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil yn rhan o'r cyfarfodydd 'golau glas' rheolaidd a oedd yn cael eu cynnal rhwng Horizon a'r gwasanaethau brys
- Dywedodd JVO ei bod yn ymddangos o'r cyflwyniad a roddwyd gan AS fod llawer o awgrymiadau wedi cael eu derbyn gan Horizon a mynegodd ei ddiolch am y diweddariad.

5 Y Diweddaraaf am y Grid Cenedlaethol

Rhoddodd Prif Reolwr y Prosiect yn y Grid Cenedlaethol, Gareth Williams (GW) gyflwyniad i ddiweddaru'r grŵp am waith presennol y Grid Cenedlaethol ar Ynys Môn ac ar draws Gogledd Cymru, yn dilyn cwblhau digwyddiadau ymgynghori diweddaraaf y prosiect.

Eglurodd GW fod ffynonellau cynhyrchu ynni a oedd yn bodoli ar hyn o bryd ac a fyddai'n bodoli yn y dyfodol, gan gynnwys Parc Gwynt Codling a Greenwire, yn golygu na fydd modd i linell gysylltu bresennol y Grid Cenedlaethol ymdopi â'r capasiti. Gyda chyfanswm capasiti cynhyrchu o dros 1,800 MW, byddai angen gwaith i atgyfnerthu'r rhwydwaith.

Yr oedd gwahanol opsiynau wedi eu hystyried, gan gynnwys cysylltu â Glannau Dyfrdwy, Penfro a'r tir mawr. Yr oedd y Grid Cenedlaethol wedi asesu'r opsiynau, wedi edrych ar agweddau amgylcheddol a thechnolegol, ac wedi llunio dewis rhagarweiniol a ffeirir (PPO).

Mae'r PPO yn gysylltiad uwchben ychwanegol ar draws Ynys Môn, a fydd yn mynd dan ddaear os a lle y bydd angen. Ar gost o oddeutu £750 miliwn mae hyn oddeutu £900 miliwn yn is na'r opsiwn nesaf. Pwysleisiodd y caiff cost unrhyw fuddsoddiad a wneir gan y Grid Cenedlaethol ei dalu yn y pen draw gan y defnyddwyr fel rhan o'u biliau ynni – felly fod cost yn ffactor pwysig.

Eglurodd GW rai o'r themâu cyffredin a godwyd gan bobl a oedd wedi rhoi adborth fel rhan o'r ymgynghoriad:

- Ystyriaeth i opsiynau dan y môr
- Natur sensitif Afon Menai
- A fyddai angen am y llinell bresennol ar draws yr ynys (yr ateb oedd byddai)
- A fyddai peilonau newydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri (yr ateb oedd na fyddai)

Yr oedd y Grid Cenedlaethol ar hyn o bryd yn asesu'r adborth ac yn anelu at gyhoeddi adroddiad adborth yn yr haf.

Holi ac Ateb

- Holodd DE am yr amserlen o ran cyhoeddi adborth o ymgynghori?

- Dywedodd GW y dylai'r adroddiad adborth fod ar gael ym Mehefin/Gorffennaf. Byddai ymgysylltu pellach â'r cyhoedd yn ddiweddarach yn 2013 ac eto yn 2014.
- Mynegodd ES ei bryder nad oedd llawer wedi newid rhwng cyflwyniad GW a'r hyn a gyflwynwyd pan oedd y Grid Cenedlaethol yn bresennol ddiwethaf mewn cyfarfod o'r GCP. Dywedodd ei bod yn siom, o ystyried fod ymgynghoriad wedi digwydd, mai'r un oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio, er gwaethaf y ffaith y bu ymgyrch anferth yn erbyn llinell uwchben ar draws Ynys Môn. Er bod y costau wedi eu cynnwys, nid oedd unrhyw sôn am faint o incwm fyddai'r Grid Cenedlaethol yn ei gynhyrchu o Horizon. Pwysleisiodd fod Ynys Môn yn darparu ar gyfer anghenion gweddill y wlad, felly dylai'r DU fod yn fodlon talu am geblau o dan y môr, a bod angen rhoi iawndal i'r Ynys am gynnal prosiectau seilwaith mawr ar ran y DU.
 - Eglurodd GW fod y Grid Cenedlaethol yn parhau i gasglu a dadansoddi adborth o'r ymgynghoriad, a oedd yn esbonio pan nad oedd llawer o newid o ran y ddau gyflwyniad diweddar, ond dywedodd y byddai yn dod i gyfarfod yn y dyfodol, gan roi diweddariad llawer manylach.
 - Ymrwymodd GW i ymchwilio a cheisio ateb i gwestiwn ED ynghylch cynhyrchu incwm.
- Diolchodd AMJ i GW am ei gyflwyniad ond nododd fod y Grid Cenedlaethol eisoes yn ymwybodol o gryfder y teimladau yn yr ardal. Nododd y dylent fod yn edrych ar gael cysylltiad a fyddai'n cynrychioli mwy o gyfaddawd.
- Crybwyllodd TC fod fferm wynt Celtic Array yn debygol o gael ei chwblhau o fewn 3 blynedd, ond na fyddai'r cysylltiad newydd yn barod erbyn hynny. Gofynnodd beth fyddai National Grid yn ei wneud pan na fyddai modd i Celtic Array ddwyn y trydan i mewn oherwydd nad oedd llinell?
 - Dywedodd GW fod y Grid Cenedlaethol yn ymwybodol o amseriad gwahanol brosiectau a'i fod bob amser yn ymroddedig i ddwyn cysylltiadau newydd ymlaen mewn da bryd.
 - Nododd DE y byddai Wylfa wedi cau erbyn hynny, a allai ryddhau capasiti presennol
- Ail-ddatganodd Will Edwards (WE) o'r NFU yr hyn a ddywedodd AMJ, gan ddatgan ei fod yn deall fod gan y Grid Cenedlaethol opsiwn yr oeddynt yn ei ffafrio, ond fod gan bobl Môn opsiwn yr oeddynt yn ei ffafrio hefyd.
- Cymeradwyodd Jenny Pritchard (JP) o Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yr hyn yr oedd y Cynghorwyr wedi ei ddweud. Dewis Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig oedd yr opsiwn ar wely'r môr. Gofynnodd hi a allai'r ffaith nad oedd Horizon wedi gneud penderfyniad terfynol ar nifer na lleoliad ei adweithyddion ddylanwadu ar y posibilrwydd o ddefnyddio cysylltiad o dan y môr?
 - Dywedodd AS, os oedd cysylltiad dan y môr (DC) i'w ystyried, byddai angen i Horizon gwblhau gwaith sylweddol i bennu a oedd yn ffordd

ddiogel, ddichonadwy a sefydlog o gysylltu gorsaf bŵer niwclear â'r Grid Cenedlaethol.

- Ychwanegodd TC y byddai defnyddio ceblau dan y môr yn golygu gofyniad ar gyfer gorsafoedd trosi AC / DC. Am bob 1,000 MW o gapasiti byddai angen adeilad mwy nac is-orsaf
 - Nododd Wyn Thomas y gallai fod cwestiynau hefyd o ran effeithlonrwydd, gyda swm sylweddol o bŵer yn cael ei golli yn ystod y broses drosi AC / DC
 - Dywedodd GW y byddai'r opsiwn o dan y môr / DC yn fwy costus ac yn gosod her dechnegol hefyd. Yr oedd y Grid Cenedlaethol o'r farn y byddai llinell AC yn fwy priodol.
- Gofynnodd DE beth fyddai effaith y cysylltiad 2,000 MW i Bentir?
 - Dywedodd GW fod y 2,000 MW a oedd yn mynd i Bentir yn dod o'r cytundebau newydd a lofnodwyd gyda Green Wire a Codling Park ar gyfer ynni gwynt o Iwerddon. Nid oeddynt yn effeithio ar gynigion ar gyfer Horizon na Celtic Array. Gallai cynhyrchu ynni newid yn aml, yn enwedig yng Ngogledd Cymru lle yr oedd cymaint yn mynd ymlaen. Er mwyn ceisio rhagweld beth allai fod angen ei wneud, yr oedd y Grid Cenedlaethol yn ymgymryd â chynllunio senarios ac yr oedd ganddo ddatganiad deng mlynedd a oedd yn edrych ymlaen at ba ddatblygiadau allai ddigwydd yn y dyfodol. Pe byddai mwy o gynhyrchu'n cael ei gynllunio, yna'r cam rhesymegol nesaf ar ôl llinell newydd ar draws Ynys Môn a gwaith atgyfnerthu fyddai llinell DC newydd dan y môr o Ogledd Cymru i Dde Cymru. Fodd bynnag, nododd na fyddai'r Grid Cenedlaethol yn adeiladu unrhyw beth hyd nes y gwyddai ei fod yn gwbl angenrheidiol.
 - Apeliodd y Cyng. Stuart Anderson (SA) am gymryd golwg hirdymor a dywedodd fod angen i'r Grid Cenedlaethol edrych cyn belled ymlaen â 2050 er mwyn diogelu'r penderfyniadau yr oedd yn eu gwneud yn awr, i'r dyfodol.
 - Dywedodd GW fod y prosiect bob amser yn anelu at edrych 10 mlynedd i'r dyfodol i sicrhau eu bod yn ystyried pob digwyddiad posibl. Yr oedd ei gydweithwyr yn y cwmni yn edrych hyd yn oed ymhellach i'r dyfodol, sef 30 i 40 mlynedd.
 - Eglurodd Dave Vernon (DV) fod dyletswydd ar y Grid Cenedlaethol i ddarparu cysylltiad at rwydwaith trosglwyddo lle bynnag yr oedd ei angen. Nid oeddynt yn gwneud sylwadau ar faterion cynhyrchu, ond bob amser yn cydweithio'n agos â'r Llywodraeth ar faterion yn ymwneud â pholisi ynni
 - Gofynnodd JJ a fyddai'r Grid Cenedlaethol yn ystyried trefnu ei fersiwn ei hun o Grŵp Cyswllt Prosiect Horizon i ganiatáu fforwm i'r gymuned drafod materion cysylltu.
 - Awgrymodd tîm y Grid Cenedlaethol y gallai fod yn bosibl gwneud hynny ar ôl yr haf, gan y byddai mwy o wybodaeth ar gael erbyn hynny.

6 Unrhyw Fater Arall

Nododd RF fod llawer o geisiadau am gyllid wedi eu derbyn ac y cadwyd cofnod ohonynt. Yr oedd yn gobeithio y byddai Horizon bellach mewn sefyllfa i gyfrannu at gymunedau fel y gallent elwa o'r prosiect a gwnaeth gais am i bob cais am gyllid cymunedol gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig.

Dywedodd TC mai ef bellach oedd Cadeirydd Clwb Pêl-droed Bae Cemaes. Gofynnodd a oedd unrhyw gyfyngiadau o ran cyllid a chyfraniadau? Fe'i cyngorwyd gan RF i ysgrifennu llythyr gan nodi'r gofynion cyllido'n fanwl.

Diolchodd DE i bawb am fod yn bresennol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35pm.